

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

### BIL Y LLUOEDD ARFOG

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â Chymru at unrhyw bwrpas sy’n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy’n addasu’r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd Bil y Lluoedd Arfog (“y Bil”) yn Nhŷr Cyffredin ar 26 Ionawr 2021 a’i ailgyflwyno ar 12 Mai yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Dethol. Gellir cael copi o’r Bil yn:  
[Bil y Lluoedd Arfog 2019-21 — Senedd y DU](#)

#### Amcanion Polisi

3. Yr amcanion polisi a nodwyd gan Lywodraeth y DU yw:
  - Adnewyddu Deddf y Lluoedd Arfog 2006 (“Deddf 2006”) ac, wrth wneud hynny, parhau i orfodi’r ddeddfwriaeth sylfaenol sy’n llywodraethu’r Lluoedd Arfog;
  - Cynnal effeithiolrwydd system gyfiawnder y gwasanaethau fel ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion y Lluoedd Arfog;
  - Ymgorffori Cyfamod y Lluoedd Arfog ymhellach yn gyfraith.

#### Crynodeb o’r Bil

4. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD).
5. Mae’r Bil yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â’r materion canlynol:
  - Parhad Deddf 2006;
  - Llysoedd gwasanaeth, gwrandawiaid diannod ac awdurdodaeth;
  - Gwasanaeth yn y Lluoedd Arfog;
  - Heddlu’r gwasanaeth: cwynion, camymddwyn etc;
  - Dedfrydu ac adsefydlu;
  - Pardynau ar ôl marwolaeth.

#### Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

6. Mae angen cydsyniad Senedd Cymru ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud â Chyfamod y Lluoedd Arfog (Cymal 8 yn y Bil fel y'i cyflwynwyd).
7. Enw cymal 8 o'r Bil yw Cyfamod y Lluoedd Arfog ("Armed Forces Covenant"). Mae'r cymal hwn yn mewnosod adrannau 343AA i 343AF newydd i Ran 16A o Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006, sy'n gosod dyletswydd ar gyrff penodedig a phersonau sy'n arfer swyddogaethau tai, addysg a gofal iechyd perthnasol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i roi sylw dyledus i Gyfamod y Lluoedd Arfog.
8. Mae'r adrannau a fewnosodir gan Gymal 8 o'r Bil, i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, fel a ganlyn:
  - a. Mae **adran 343AB(1)** yn gosod dyletswydd ar bersonau a chyrrff penodedig yng Nghymru sy'n arfer swyddogaeth berthnasol i roi sylw dyledus ("due regard") i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog, sef:
    - y rhwymedigaethau a'r aberth unigryw a wneir gan y Lluoedd Arfog;
    - yr egwyddor ei bod yn ddymunol dileu anfanteision o Wasanaeth yn y Lluoedd Arfog, neu gyn Wasanaeth yn y Lluoedd Arfog a
    - yr egwyddor y gellir cyfiawnhau darpariaeth arbennig oherwydd yr effaith y gallai Gwasanaeth yn y lluoedd fod wedi'i chael ar unigolion.
  - b. Mae **adran 343AB(2)** yn diffinio swyddogaeth berthnasol ("relevant function") fel swyddogaeth tai, addysg a gofal iechyd berthnasol. Mae'r rhain yn feysydd polisi sydd wedi'u datganoli ac, o ganlyniad, mae'r darpariaethau sy'n gysylltiedig â hwy o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.
  - c. Mae **adran 343AB(3)** yn nodi'r cyrff cyhoeddus yng Nghymru y bydd y ddyletswydd sylw dyledus yn gymwys iddynt. Mae'r rhain fel a ganlyn:
    - Awdurdodau Lleol
    - Cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir
    - Byrddau Iechyd Lleol
    - Awdurdodau Iechyd Arbennig
    - Ymddiriedolaethau'r GIG
  - d. Mae **adrannau 343AB(4) i (6)** yn nodi ystyr swyddogaethau tai, addysg a gofal iechyd perthnasol gan gyfeirio at deddfwriaeth berthnasol.
  - e. Mae **Adran 343AE** yn disgrifio sut y bydd canllawiau sy'n cefnogi'r deddfwriaeth yn gweithio. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi canllawiau mewn perthynas â'r ddyletswydd sylw dyledus a rhaid i'r cyrff cyhoeddus perthnasol roi sylw i'r canllawiau hynny. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn cyhoeddi canllawiau i'r graddau y mae'r canllawiau'n ymwneud â

swyddogaethau datganoledig Cymru (h.y. swyddogaethau gweithredol a'r rhai sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru). Fodd bynnag, os yw'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod y diwygiadau i'r canllawiau yn ansylweddol, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i gyhoeddi canllawiau diwygiedig heb ymgynghori â Gweinidogion Cymru i ddechrau.

- f. Mae **adran 343AF** yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i estyn y ddyletswydd sylw dyledus i bersonau a chyrrff ychwanegol yng Nghymru, neu i bennu swyddogaethau perthnasol ychwanegol sydd i ddod o fewn cwrpas y ddyletswydd. Fodd bynnag, cyn gwneud hynny, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru, i'r graddau bod y rheoliadau'n cynnwys darpariaethau sydd o fewn cymhwysedd datganoledig Cymru ("Welsh devolved competence"). Diffinnir hyn fel darpariaeth a fyddai'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu'n un y gellid ei gwneud mewn is-ddeddfwriaeth gan Weinidogion Cymru sy'n gweithredu ar eu pennau eu hunain. Bydd y rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.
9. Mae'n ofynnol i gael cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn oherwydd bod eu diben yn ymwneud â'r modd y mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn cyflawni eu swyddogaethau. Maent yn gosod swyddogaethau ar nifer o Awdurdodau Datganoledig Cymru ac maent yn rhoi sylw i faterion datganoledig ac yn effeithio arnynt (h.y. swyddogaethau cyrff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau datganoledig ym meysydd datganoledig tai, addysg a gofal iechyd). At hynny, gallai pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau yn Adran 343AF arwain at roi'r ddyletswydd sylw dyledus mewn meysydd mwy datganoledig, neu i Awdurdodau Datganoledig eraill yng Nghymru. Yn unol â hynny, mae gan y pŵer hwn botensial i effeithio ar fwy o feysydd datganoledig.
10. Yn y Bil fel y'i gyflwynwyd ar 26 Ionawr 2021, nododd Llywodraeth y DU yn y Nodiadau Esboniadol a gyhoeddwyd ar gyfer y Bil eu bod o'r farn bod Cymal 8 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, ac y byddent felly'n ceisio cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Cymal hwn. Fodd bynnag, mae safbwynt Llywodraeth y DU wedi newid erbyn hyn ac nid ydynt yn ystyried mwyach fod unrhyw gymal yn y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Diwygiwyd y Nodiadau Esboniadol fel y cawsant eu hailgyflwyno ar 12 Mai ac maent yn awr yn cadarnhau'r newid yn asesiad Llywodraeth y DU:

*"In the view of the Government, none of the matters to which the Bill relates are within the legislative competence of the Scottish Parliament, Senedd Cymru or the Northern Ireland Assembly".*

## **Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil**

11. Bydd y darpariaethau a fewnosodir gan Gymal 8 o'r Bil yn helpu i wella'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol mewn perthynas

â Chymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Mae'r Cyfamod, ar ei ffurf bresennol, wedi bod ar waith ers bron i ddeng mlynedd, ac er bod darparwyr gwasanaethau wedi rhoi gweithdrefnau a mentrau da ar waith, mae pryder dilys bod rhai aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yn dal i wynebu anfantais o ran cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus. Achosir hyn yn aml gan ddiffyg ymwybyddiaeth o'r Cyfamod a natur unigryw gwasanaeth yn y Lluoedd Arfog.

12. Dylai'r darpariaethau gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith darparwyr gwasanaethau a llunwyr polisi o'r rhwymedigaethau a'r amgylchiadau unigryw sy'n wynebu Cymuned y Lluoedd Arfog, a meithrin dealltwriaeth o sut y gall y rhain effeithio ar eu gofynion, a'u gallu i gael gafael ar wasanaethau cyhoeddus allweddol.
13. Drwy ymgorffori'r ddealltwriaeth hon ym mhenderfyniadau'r sector cyhoeddus drwy ddyletswydd statudol newydd i roi sylw dyledus i'r Cyfamod, bydd y ddeddfwriaeth hon yn helpu i wella'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol mewn perthynas â Chymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.
14. Bydd y darpariaethau a fewnosodir gan Gymal 8 o'r Bil yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ym meysydd datganoledig tai, addysg a gofal iechyd yng Nghymru.
15. Felly, mae'n rhesymol defnyddio Bil y DU i wneud y darpariaethau hyn, gan sicrhau lefel o gysondeb ledled y DU o ran gweithredu'r Cyfamod, tra'n parhau i ganiatáu i wasanaethau a darpariaeth ddatganoledig weithredu polisi ychwanegol i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog.

### **Goblygiadau ariannol**

16. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Gymru mewn perthynas â Bil Lluoedd Arfog Llywodraeth y DU.

### **Casgliad**

17. Rwy'n argymhell bod Senedd Cymru yn cydsynio â chynnwys Cymal 8 ym Mil y Lluoedd Arfog gan Lywodraeth y DU. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU oherwydd:
  - Bydd yn gwella'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol mewn perthynas â Chymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru a ledled y DU.
  - Bydd yn caniatáu i ddarpariaethau ddod i rym ar yr un pryd ledled y DU.
  - Bil ar gyfer y DU gyfan yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur ar gyfer codi ymwybyddiaeth ymhlith darparwyr gwasanaethau a llunwyr polisi o'r rhwymedigaethau a'r amgylchiadau unigryw sy'n wynebu Cymuned y Lluoedd Arfog.

- Bydd yn meithrin dealltwriaeth o sut y gall yr amgylchiadau sy'n wynebu cymuned y Lluoedd Arfog effeithio ar eu gofynion o ran gwasanaethau cyhoeddus allweddol a'u gallu i gael gafael arnynt.
- Mae'r darpariaethau'n ymdrin â materion datganoledig yn ogystal â materion nad ydynt wedi'u datganoli.

**Hannah Blythyn AS**  
**Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol**  
**Mai 2021**